

Cyfarfod cynllunio Cyllid a Llywodraeth Leol

06 Medi 2021, 10:15-11.30am

Nodiadau

Mynychwyr

- Catrin James, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)
- Noreen Blanluet, Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
- Michele Hunt, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)
- Victoria Lloyd, Age Cymru
- Chris Johnes, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
- Carl Cooper, Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CVC) Cymru
- Iwan Thomas, PLANED
- John Gallanders, CVC Cymru
- Million Abesha, Cynghair Ffoaduriaid Cymru
- Tabea Wilkes, RSPB Cymru
- Rocio Cifuentes, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)
- Paul McDonagh, Llywodraeth Cymru
- Ruth Marks, CGGC
- Anna Nicholl, CGGC
- Ben Lloyd, CGGC
- Alison Pritchard, CGGC

Ymddiheuriadau

- Phil Fiander, Cadeirydd, Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio
- Sheila Hendrickson-Brown, C3SC
- Ruth Power, Shelter Cymru
- Gethin Rhys, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
- Iestyn Wyn, Stonewall Cymru
- Helene Hayes, Cyngor ar Bopeth Cymru
- Lee Ellery, Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru

Cofnodion o'r Cyfarfod Gweinidogol blaenorol

Nodwyd y datblygiadau cadarnhaol ar rai o'r prif faterion yr oedd y sector wedi bod yn gweithio arnynt, fel cyllidebu carbon a chyllidebu ar sail rhyw.

Nododd BL fod CGGC wedi bod yn cwrdd ag Uned y Trydydd Sector yn Llywodraeth Cymru, lle y cytunwyd i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau a pharhau i gynnal cyfarfodydd cynllunio rheolaidd ond heb eu cysylltu â dyddiadau cyfarfodydd Gweinidogion penodol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r amser. Gall y sector hefyd ofyn am gyfarfodydd â swyddogion.

Gwnaeth rhai aelodau fynegi pryder ynghylch yr erydiad amser yr oedd Gweinidogion yn ei neilltuo i gyfarfodydd, ond nododd BL fod yr amserau a neilltuir yn amrywio o un Gweinidog i'r llall, ond bod angen bod yn glir ynghylch diben y cyfarfodydd a'r canlyniadau a ddisgwyliwyd. Roedd y rhain yn newidiadau a nodwyd yn y Cynllun Gwella ar y Cyd a gytunwyd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

Trafodaeth parthed eitem agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf gyda'r Gweinidog

Nododd PM fod eitem sefydlog ar bob agenda, parthed yr Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio ar gais y Gweinidog.

Roedd y drafodaeth ar bynciau yn cynnwys:

Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio – cyfarfod nesaf 14 Medi, angen ymgynghori ymhellach â sector ehangach. Nodiadau o'r cyfarfod i'w dosbarthu ymhlith aelodau'r Grŵp Cynllunio Cyllid a Llywodraeth Leol.

Phil Fiander i arwain diweddariad

Cyllideb – bydd y cyfarfod nesaf ar 14 Hydref i roi amser i aelodau ddylanwadu. Cyfle i'r Gweinidog roi diweddariad i'r sector.

Bydd aelodaeth hefyd yn gofyn pwyntiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gyllideb:

- Sut mae natur yn cael ei hystyried yn y gyllideb yn sgil yr argyfwng natur? (**Michele Hunt**)
- Sut mae strategaethau gan Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb (e.e. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, Cenedl Noddfa ac LHDTTC+)? (**Rocio Cifuentes**)

Nododd PM y byddai llawer o'r penderfyniadau ar gyfer Gweinidogion unigol o fewn eu portffolios, a byddent yn hysbysu'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol. Mae grwpiau o swyddogion yn ffurfio gweithgorau i drafod effeithiau materion ar draws portffolios ac yna mae'r Cabinet yn penderfynu ar gyllid ar gyfer y gwaith. Diweddariadau gan y Gweinidog sy'n cyfaddef y bydd heriau i'r gyllideb. Potensial am sesiwn anffurfiol i friffio rhwydweithiau'r sector ar broses y gyllideb.

Canolfan Ragoriaeth Grantiau – yn bwriadu cyflwyno cytundebau cyllido mwy hirdymor. Nid oes gan Lywodraeth Cymru drefniadau cyllido hirdymor gan y DU.

Aelodau'n croesawu'r cynlluniau mewn egwyddor. Mae'r sector wedi bod yn galw am hyn.

Fodd bynnag, amlygodd aelodau'r angen i reoli peryglon canlyniadau anfwriadol wrth eu cyflwyno. Er enghraifft, pwy sy'n elwa ar delerau cyllido hirach? Dylai Llywodraeth Cymru hefyd fynd i'r afael â galwadau am gyllid tymor byr - anodd creu partneriaethau mewn amser cyfyngedig. Pryderon ynghylch systemau monitro a'r angen am fonitro mwy cadarn os yw'n gyllid mwy hirdymor. Angen cyllid i rymuso unigolion ac i gymunedau gael hyder yn y bobl sy'n ei ddarparu, angen parhad er mwyn osgoi colli sgiliau.

Pryderon ynghylch y ffaith nad oes gan y rhan helaeth o'r sector gydberthynas uniongyrchol â chyllid gan Lywodraeth Cymru – cael ei ddylanwadu mwy gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'i dylanwad i annog eraill i ddilyn egwyddorion y Cod Ymarfer Cyllido. Hefyd, rôl Cyngorau Tref a Chymuned.

Cydberthnasau â'r Llywodraeth Leol – Nododd PM fod y Gweinidog o gefndir sector gwirfoddol ond bod y materion ynghylch Llywodraeth Leol yn newydd iddi, felly byddai'n dda o beth codi materion yn y cyfarfod.

Mae cydberthnasau â'r llywodraeth leol yn rhan bwysig o adroddiad Cynllun Adfer y TSPC. Mae swyddogion Uned y Trydydd Sector yn sefydlu gweithgor i ddatblygu hyn.

Y prif nod yw i swyddogion y llywodraeth leol fod yn rhan o'r grŵp hwn. Dylai hyn helpu i sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu cydweithredu'n fewnol a bod gan fudiadau'r sector gwirfoddol un llwybr i ymgysylltu. Dylai hefyd gefnogi'r cydlyniant â CLLLC ac awdurdodau lleol.

Cynigiwn fod y gweithgor hwn yn adrodd yn ôl ar y cyd i Jane Hutt a Rebecca Evans.

Bydd y cyfarfod hefyd yn gyfle i ddangos enghreifftiau da o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad (gall CGGC arwain).

Camau gweithredu

- **CGGC i rannu nodiadau o gyfarfod yr Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio ar 14 Medi**
- **CGGC i rannu'r Cynllun Gwella ar y Cyd**
- **CGGC i baratoi papur eglurhaol drafft ar gyfer eitem llywodraeth leol**
- **CGGC i ofyn am gyfarfod gyda Matt Wellington i drafod potensial gweithio ar y cyd y tu allan i'r cyfarfod â'r Gweinidog**
- **CGGC a swyddogion i ystyried potensial cael cyfarfod briffio anffurfiol i rwydweithiau'r sector ar sut mae'r broses gyllidebu'n gweithio**

Cyfarfod Gweinidogol Dydd Iau 14 Hydref 10:30 – 11:30 drwy Teams (cyn-gyfarfod ar yr un diwrnod, 9.30am-10.15am)

Agenda a gytunwyd

- Cyllideb
- Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio
- Canolfan Ragoriaeth Grantiau
- Cydberthnasau â'r Llywodraeth Leol